Ministry of JUSTICE

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

NOMS CYMRU

Cynllun Comisiynu a Busnes 2008-09

PAPUR YMGYNGHORI

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan NOMS Cymru, rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyhoeddwyd ar Hydref 2007. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben yn Nhachwedd 2007

Cynnwys	Tudalen
1. Rhagarweiniad gan Yvonne Thomas *Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru*	3
2. Meysydd allweddol ar gyfer comisiynu	5
3. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad	12

Atodiad 1: Rhestr Ddosbarthu	14
Atodiad 2: Cod Ymarfer – Meini Prawf yr Ymgynghoriad	15
Atodiad 3: Geirfa o'r Acronymau	16
Atodiad 4: Holiadur yr Ymgynghoriad	17

YVONNE THOMAS, CYFARWYDDWR RHEOLI TROSEDDWYR CYMRU

1. RHAGARWEINIAD

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich sylwadau a'ch barn am y materion allweddol sydd angen imi eu hystyried wrth baratoi Cynlluniau Comisiynu a Busnes NOMS Cymru ar gyfer 2008-2009.

Fy mhrif amcanion fydd canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd, lleihau aildroseddu a chynnig mwy o gyfle i droseddwyr sy'n oedolion ddod yn ddinasyddion cyfrifol a gwneud cyfraniad economaidd a chymdeithasol cadarnhaol i'w cymunedau yng Nghymru. Fodd bynnag, i weld potensial yr hyn y gallwn ei gyflawni yng Nghymru yn llawn, mae angen i fy nghynllun comisiynu gysylltu i'r hyn sy'n cael ei gomisiynu y tu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol, nid yn unig oddi mewn iddi. Bydd eich cyfraniad chi'n rhan werthfawr o wneud i'r broses honno ddigwydd.

Mae comisiynu gwasanaethau rheoli troseddwyr yn parhau i fod yn un o'r prif agweddau ar ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol, a phan basiwyd y Ddeddf Rheoli Troseddwyr yn ddiweddar, gosodwyd y sylfaeni ar gyfer y ffordd newydd hon o weithio.

Bydd comisiynu'n digwydd ar dair lefel. Ar y lefel genedlaethol, Cymru a Lloegr, ar lefel Cymru gyfan, ac ar lefel ardal i adlewyrchu'r pedair ardal gyfystyr yng Nghymru a wasanaethir gan yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Byddaf yn gweithio â darparwyr arweiniol lleol a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau mewn ardal neilltuol. Bydd statws yr Ardaloedd Prawf fel darparwyr arweiniol yn cael ei warantu tan 2010, yn amodol wrth gwrs ar eu bod yn cwrdd â'r lefelau perfformiad sy'n ofynnol.

Rhagwelir y bydd Ardaloedd Prawf yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth rheoli troseddwyr, ac yn parhau i gymhwyso egwyddorion Gwerth Gorau wrth asesu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwaith. Mae Ardaloedd Prawf wedi cyfrannu at gryfder y trydydd sector drwy ddefnyddio ystod o gyrff o'r fath i ddarparu gwasanaethau priodol. Mae'r duedd hon yn rhan allweddol o'n strategaeth o ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol, ac o gyfrannu at dyfu economi ffyniannus o wasanaethau troseddwyr yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Ar gyfer carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru, byddaf yn negodi'r cyllid ar gyfer gwasanaethau gyda Gwasanaeth Carchardai EM yn 2008-09. Ar gyfer ein sector carchardai preifat, byddwn yn parhau i fonitro a rheoli costau a lefelau darparu'r adnodd pwysig hwn.

Lle credaf y gellir ennill gwell gwerth drwy gomisiynu gwasanaethau ar sail Cymru gyfan, byddaf yn barod i gontractio'n uniongyrchol â darparwyr i gyd-fynd â, ac nid yn lle, gwasanaethau lleol.

Bydd Cynllun Comisiynu a Busnes Cymru ar gyfer 2008-09 yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a diogelu'r bobl yn well yng Nghymru. Ynghyd â'r sylwadau a ddaw o'r ymgynghoriad, bydd fy nghynllun comisiynu'n cael ei oleuo gan:

- Blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig – fel a nodir yn nogfen Fframwaith Comisiynu a Phartneriaeth NOMS

- Y galw yn y llys am wasanaethau yn y gymuned ac mewn carchardai
- Y risgiau a gyflwynir gan droseddwyr i'r gymuned
- Anghenion troseddegol y troseddwyr sy'n defnyddio'r OASys (System Asesu Troseddwyr)
- Tystiolaeth ymchwil o'r hyn sy'n gweithio i leihau aildroseddu
- Yr adnoddau sydd ar gael.

Byddaf yn datblygu fy nghynllun comisiynu a busnes ar y sail na fydd unrhyw gynnydd yn fy nyraniad ar gyfer 2008-09 i ddarparu gwasanaethau gweithredol. Bydd hyn yn golygu y byddaf yn ystyried darparu unrhyw wasanaethau newydd ar sail tystiolaeth bod eu hangen naill ai o arbedion effeithlonrwydd neu o ddadfuddsoddi wedi'i reoli.

Lle gellir cyflwyno achos argyhoeddiadol dros wariant cyfalaf neu wariant gweithredol ychwanegol i dalu am brosiectau newydd, byddaf yn gweithio gyda fy nghydweithwyr yn NOMS a chyda'n darparwyr – rhai presennol a darpar – i geisio dod o hyd i gyllid.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf, rhaid i'n blaenoriaethau newid wrth inni ddefnyddio ein strwythurau comisiynu newydd i gefnogi a galluogi ein darparwyr - presennol a darpar - i ddarparu gwasanaethau craidd ac i edrych ar fodelau newydd sy'n darparu mwy am lai. Dylai uno comisiynu gwasanaethau carchar a phrawf roi cyfle inni i gyd ddarparu gwasanaethau o ansawdd uwch mewn ffordd gost-niwtral neu gost-fanteisiol. Byddwn yn croesawu eich meddyliau a'ch syniadau ar hyn yn fawr iawn.

Dylech nodi y bydd y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Comisiynu NOMS Cymru am 2007-08 yn parhau yn 2008-09. Bydd hyn yn rhoi sefydlogrwydd a pharhad i'r darparwyr presennol ac yn gadael i brosiectau a ddechreuwyd yn 2007-08 gario ymlaen. Ni ddylai'r sefyllfa hon gyfyngu ar nac atal eich ymateb i fy ymgynghoriad. Credaf ei bod yn bwysig bod datblygiad comisiynu, fel rhan o ddarparu gwasanaethau cywiro, yn parhau fel y ffocws ar berfformiad darparwyr. Bydd dod o hyd i'r cydbwysedd gorau rhwng angen a darpariaeth yn helpu i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Bwriadaf barhau i weithio'n gydweithredol â'r llu cyrff y dibynnwn arnynt, ac sy'n dibynnu arnom ni, ledled Cymru. Lle mae cyfle gennym i negodi gwerth pellach wrth gyflawni ein cyd-amcanion, drwy gyfuno adnoddau a chyllidebau, byddaf yn ymrwymo i wneud hynny a byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn trafod y dulliau hyn fel rhan o'n proses gynllunio.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cyfraniad at yr ymgynghoriad ac, i roi rhywfaint o ffocws, rwyf yn gofyn 17 o gwestiynau allweddol ichi eu hystyried. Cofiwch beidio â chael eich cyfyngu gan y cwestiynau hyn, byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau pellach sy'n berthnasol yn eich barn chi. Mae holiadur yr ymgynghoriad ar gael yn Atodiad 4.

Diolch ichi am roi eich amser i gyfrannu at y broses ymgynghori hon.

Yvonne Thomas

Yvonne Thomas
Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru

Cwestiwn 1: O ystyried, ac eithrio prosiectau cyfalaf, y bydd ond yn bosibl cyllido gwasanaethau newydd neu well o arbedion effeithlonrwydd neu drwy ddadfuddsoddi yn y gwasanaethau presennol, pa ddarpariaeth bresennol sydd o flaenoriaeth isel yn eich barn chi ac y gellid ei lleihau?

2. MEYSYDD ALLWEDDOL AR GYFER COMISIYNU

Mae gan Gymru gyfradd droseddu gymharol isel, yn ôl Ystadegau'r Heddlu (87 o droseddau wedi eu cofnodi am bob mil o'r boblogaeth, o'i gymharu â'r cyfartalog cenedlaethol o 100 ar gyfer Cymru a Lloegr), ac yn ôl Arolwg Troseddu Prydain 2006-07 (295.5 o droseddau cartref am bob mil o gartrefi o'i gymharu â'r cyfartalog cenedlaethol o 303.8).

Roedd hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, yn ôl Arolwg Troseddu Prydain, yr un fath â'r cyfartalog cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr, gyda 41% yn credu bod y System yn effeithiol gyda dod â phobl o flaen eu gwell.

Mae'r blaenoriaethau yr ydym yn eu rhagweld ar gyfer 2008-09 yn adeiladu ar ddwy flynedd gyntaf y broses gomisiynu ar gyfer NOMS Cymru. Maen nhw'n llifo o broses sydd eisoes wedi dechrau i sicrhau cydbwysedd llawer gwell rhwng risg ac anghenion troseddwyr, y galw gan ddedfrydwyr a'r gwasanaethau penodol a ddarperir ar y ddaear. Fel hyn, medrant wneud cyfraniad sylweddol at ddiogelu'r cyhoedd a chyfraddau aildroseddu troseddwyr sydd dan oruchwyliaeth NOMS.

Rydym hefyd eisiau sicrhau bod y blaenoriaethau ar gyfer 2008-09 yn parhau i ganolbwyntio ar godi safonau, lleihau anghydraddoldeb mynediad a chanlyniadau i droseddwyr ac ar gynnig sicrwydd o ansawdd i randdeiliaid.

Wrth i NOMS ddatblygu dros y 3 mlynedd diwethaf, mae nifer o themâu allweddol wedi ymddangos yng nghyswllt anghenion troseddwyr yng Nghymru a'r gwasanaethau a ddarperir i'w cwrdd. Mae'r rhain wedi cael eu nodi ar lefel Cymru a Lloegr, ar lefel Cymru gyfan, a disgrifir hwynt isod.

2.1 **Rheoli Troseddwyr**

Mae gweithrediad y Model Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yn un o gonglfeini ymarfer effeithiol gyda throseddwyr ac yn dibynnu ar asesu cywir, cynllunio da, gweithrediad cadarn, adolygiad rheolaidd a gwerthusiad parhaus o'r ymyriadau a ddewisir. Mae Safonau Cenedlaethol newydd ar Reoli Troseddwyr wedi cael eu cyhoeddi a bydd darparwyr arweiniol yn cael eu monitro yn erbyn y rhain.

Mae cyfnodau 1 a 2 y Model Rheoli Troseddwyr eisoes wedi cael eu cyflwyno. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- Troseddwyr sydd dan oruchwyliaeth yn y gymuned

- Troseddwyr sy'n cyflwyno risg uchel o achosi niwed

- Troseddwyr Mynych a Rhai Blaenoriaeth Eraill sydd yn y ddalfa

Bydd gweithrediad Cyfnod 3 y broses rheoli troseddwyr, ar gyfer carcharorion a ddedfrydwyd i ddedfryd amhenodol er Diogelwch y Cyhoedd, yn flaenoriaeth yn ystod 2008.

Yn ystod 2008-09, byddwn yn gweithio â'n cydweithwyr yn y gwasanaethau carchar a phrawf i barhau i ddatblygu'r Model Rheoli Troseddwyr ac i sicrhau bod ansawdd y cynllunio a'r gweithredu yn rhan annatod o gynlluniau dedfrydu.

Byddwn yn targedu adnoddau'n well tuag at droseddwyr risg uwch ac achosion Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth (MAPPA) fel eu bod yn derbyn mwy o fuddsoddiad amser ac adnoddau. I gydbwyso hyn, byddwn eisiau troi troseddwyr risg isel, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ymaith o wasanaethau troseddwyr a gomisiynwyd. Bydd y Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau ar gyfer 2008-09 yn adlewyrchu'r newid pwyslais hwn.

Cwestiwn 2: Beth yn eich barn chi sy'n gweithio'n dda gyda rheoli troseddwyr yng Nghymru, a beth sydd angen ei wella?

Cwestiwn 3: Nid yw Troseddwyr Mynych a Rhai Blaenoriaeth Eraill, sydd dros 21 oed ac a ddedfrydir i lai na 12 mis yn y carchar, yn cael eu goruchwylio'n statudol gan y gwasanaeth prawf ar ôl cael eu rhyddhau i'r gymuned, ond maen nhw'n debygol iawn o aildroseddu. A ddylid buddsoddi mewn gweithio â'r grŵp arbennig hwn o Droseddwyr Mynych a Rhai Blaenoriaeth Eraill?

2.2 Targedu ymyriadau at droseddwyr sy'n cyflwyno'r risg fwyaf o aildroseddu ac o achosi niwed

Dengys y tabl proffiliau risg isod ganran y troseddwyr, yn ôl haenau rheoli troseddwyr, sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru naill ai drwy Orchymyn Cymunedol neu Orchymyn Dedfryd Ohiriedig, o'i chymharu â'r cyfartalog ar draws Cymru a Lloegr.

Gorchmynion Llys a Gychwynnwyd 2006 – 2007

Gorchmynion Cymunedol a Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig		
Proffil Risg	**Cymru a Lloegr**	**Cymru**
Haen 1 (risg isel o aildroseddu ac achosi niwed)	22.7%	23.3%
Haen 2	31.3%	34.0%
Haen 3	40.0%	36.0%
Haen 4 (risg uchel / uchel iawn o achosi niwed)	6.0%	6.7%

2.3 Ystadegau Ymchwil a Datblygu NOMS

Gyda'r sefyllfa garchar, dengys carcharorion yng Nghymru broffil risg sydd ar y cyfan yn unol â charcharorion ar draws Cymru a Lloegr. Dylid nodi, fodd bynnag, ar 30 Mehefin 2007, bod 42% o'r holl droseddwyr sy'n oedolion a ddedfrydwyd mewn llysoedd yng Nghymru yn cael eu dal mewn carchardai yn Lloegr.

Dengys yr anghenion troseddegol yng Nghymru, yn ôl asesiadau OASys y Gwasanaeth Prawf yn 2006-07, fod cyfran y troseddwyr gydag anghenion troseddegol, ym mhob categori OASys, yn uwch nag ar gyfer Cymru a Lloegr ar y cyfan. Ar gyfer Cymru ar y cyfan, mae'r gyfran anghenion fwyaf yn ymwneud â'r agweddau canlynol ar y system OASys:

- Meddwl ac Ymddygiad - 60%
- Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth - 60%
- Alcohol - 49%

Yng Nghymru, mae'r anghenion troseddegol ar gyfer dynion yn uwch na'r cyfrannau ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn hefyd yn wir yn ôl proffiliau anghenion gwahanol ar gyfer Troseddwyr Risg Uchel o Niwed, Troseddwyr Mynych a Rhai Blaenoriaeth Eraill, a rhai sy'n euog o Drais yn y Cartref.

I ferched o Gymu sy'n droseddwyr, mae cyfran yr anghenion troseddegol ym mhob categori OASys yn uwch na'r cyfrannau ar draws Cymru a Lloegr. Yr unig eithriad i hyn yw'r categori 'agweddau' sy'n unol â'r proffil ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae darpariaeth yn ei lle i fynd i'r afael ag anghenion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, a Meddwl ac Ymddygiad. Bydd yn cael ei datblygu ymhellach a'i mireinio ar draws y gwasanaethau prawf a charchardai. Bydd gwaith yng nghyswllt anghenion alcohol hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2008-09.

Cwestiwn 4: Dengys y tabl uchod ddadansoddiad o'r canrannau yn ôl y risg a gyflwynir gan y troseddwyr sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Mae mwy na 57% yn yr Haenau 1 a 2 is. Pa newidiadau y gellid eu gwneud i reoli'r mathau hyn o droseddwyr yn fwy priodol er mwyn darparu mwy o adnoddau i weithio gyda throseddwyr sy'n cyflwyno mwy o risg?

Cwestiwn 5: Rydym yn gweithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu'r ymrwymiadau o dan Dysgu Newid er mwyn darparu gwasanaethau addysg a sgiliau i droseddwyr yng Nghymru. Caiff ei gydnabod bod llawer iawn o waith da eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn, ond sut y gallwn wella a phrysuro'r broses o gydgysylltu darpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth mewn carchardai ac yn y gymuned?

2.4 Cyffuriau ac Alcohol

Mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn parhau i fod yn ffactorau sylweddol mewn ymddygiad troseddol, ond mae'r rhan fwyaf o adnoddau'n cael eu gwario ar

faterion cyffuriau. Mae rhai camddefnyddwyr cyffuriau'n cyflawni nifer fawr o droseddau dwyn neu fwrglera i dalu am eu cyffuriau tra bod llawer o droseddau trais, gan gynnwys trais yn y cartref, yn cael eu cyflawni o dan ddylanwad alcohol.

Dengys dadansoddiad o ddata OASys, ar gyfer troseddwyr yn y gymuned yng Nghymru, fod mwy o angen rhoi sylw i alcohol na chyffuriau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am garcharorion sydd yn y ddalfa yng Nghymru, lle mae'r angen bron yr un fath.

Asesiadau OASys 2006 – 2007

	Cymru a Lloegr	**Cymru**
Yn y gymuned		
Cyffuriau	26%	28%
Alcohol	44%	49%
Carchardai (dynion sy'n oedolion)		
Cyffuriau	39%	45%
Alcohol	32%	46%

Cwestiwn 6: Sut y gallwn wella ein gwasanaethau alcohol i gwrdd ag anghenion troseddwyr yn well ac i leihau aildroseddu?

2.5 Gwaith Di-dâl

Mae gwaith di-dâl yn ateb poblogaidd gan y llysoedd gan ei fod yn cynnig cosbi'r troseddwr tra'n gwneud rhywfaint o iawn i'r gymuned. Ers sefydlu'r cynllun Payback, mae gwaith di-dâl wedi canolbwyntio'n gynyddol ar waith y mae'r cymunedau eu hunain wedi gofyn am gael ei wneud. Mae hefyd yn bosibl datblygu sgiliau a chymwysterau gwaith troseddwyr tra byddant yn cyflawni'r ddedfryd hon.

Ers i ofynion gwaith di-dâl ddechrau cael eu cynnwys mewn gorchmynion cymunedol a dedfrydau gohiriedig (Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003), mae nifer yr oriau a orchmynnwyd i droseddwyr eu cyflawni wedi cynyddu'n ddramatig. Mae gan y llysoedd bellach lawer mwy o hyblygrwydd nag o'r blaen i ychwanegu gwaith di-dâl at ystod o ofynion eraill. Yng Nghymru, dyma'r gofyniad a ddefnyddir amlaf mewn Gorchymyn Cymunedol, ac yn 2006 roedd 30% o'r gorchmynion a wnaed yn cynnwys gofyniad gwaith di-dâl. Yn ogystal, roedd 21% o orchmynion dedfryd ohiriedig yng Nghymru hefyd yn cynnwys gofyniad gwaith di-dâl. Mae'r ddwy ganran yn cyfateb i'r cyfartalog cenedlaethol ar draws Cymru a Lloegr o 31% am y naill a 21% am y llall.

Rydym yn cydnabod bod gwaith di-dâl yn ddedfryd hynod boblogaidd ac effeithiol. Gan y ddedfryd hon y mae'r gyfradd aildroseddu isaf o unrhyw orchymyn cymunedol

neu ddedfryd o garchar, gyda lefel aildroseddu bresennol o 52.2% yn erbyn cyfradd aildroseddu ddisgwyliedig o 57.6% (Astudiaeth Aildroseddu RDS 2004). Fodd bynnag, mae pryder bod rhai troseddwyr risg isel yn cael eu gorchymyn i wneud gwaith di-dâl lle byddent wedi derbyn dirwy o'r blaen.

Cwestiwn 7: **Ym mha ffyrdd y gallwn weithio gyda'r llysoedd a darparwyr i ystyried opsiynau eraill yn lle dedfrydau gwaith di-dâl lle nad oes efallai eu hangen i leihau aildroseddu neu lle nad ydynt yn gosb briodol i droseddwyr?**

2.6 Gweithio Drwy Gât y Carchar

Rydym yn cydnabod, wrth ddarparu disgwyliadau Adroddiad Carter (2003) a gwasanaethau rheoli troseddwyr o'r dechrau i'r diwedd, bod yn rhaid cael ymyriadau 'drwy'r gât' effeithiol. Rydym eisoes yn cefnogi'r gwaith hwn drwy ddatblygu rhaglenni, e.e. treialu darparu'r Rhaglen Cam-drin yn y Cartref Integredig yng Ngharchar EM Caerdydd, a thrwy ein prosiect Addysg a Hyfforddiant peilot, *Llwybrau at Waith*, sy'n cynnwys Carchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, Carchar EM Caerdydd, a Gwasanaeth Prawf De Cymru, ymhlith eraill. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod angen gwneud mwy.

Cwestiwn 8: Beth allwn ei wneud i adeiladu ar waith 'drwy'r gât' a sicrhau ei fod yn gwreiddio'n well?

Cwestiwn 9: Credir fod 'drwy'r gât' ar ei fwyaf effeithiol pan fydd carcharor yn cael ei gadw dan glo heb fod ymhell o'i gymuned ei hun. Pa brosiect y gellid ei ddatblygu i gefnogi hyn?

Cwestiwn 10: Wrth flaenoriaethau adnoddau prin, sut y gallwn sicrhau bod yr ymyriadau iawn yn cael eu darparu i garcharorion ar yr adeg iawn er mwyn rhoi'r fantais fwyaf? A ddylai hyn gynnwys carcharorion ar remand hefyd?

2.7 Materion Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Merched

Mae *Adroddiad Corston* (Mawrth 2007, Adroddiad Pathfinder Cymru ar Lety i Ferched sy'n Droseddwyr – *From Homeless to Home – Mehefin 2007*) ac adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Fawcett (Darpariaeth yn y Gymuned i Ferched sy'n Droseddwyr – 2007) yn dwyn ynghyd y gwahanol ddarganfyddiadau ymchwil o anghenion troseddegol, beth sy'n gweithio gyda merched, a'r gwahanol fodelau ymarfer a ddefnyddir.

Mae'r adroddiadau hyn yn codi cwestiynau pwysig i gomisiynwyr ac nid oes dwywaith bod darpariaeth a ddyfeisiwyd ar gyfer dynion yn anaddas weithiau i gwrdd ag anghenion merched. Dengys y ddau adroddiad fod anghenion helaeth heb eu diwallu yng nghyswllt addysg a chyflogaeth, iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), tai a

chyllid, a dyledion. Argymhellir darpariaeth i ferched yn unig, gyda ffocws ar rymuso, defnyddio dulliau dysgu effeithiol, a safiad holistig ynghyd â chymorth ymarferol gyda thrafnidiaeth a gofal plant.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghymru lle nad oes unrhyw gyfleusterau dan glo i ferched, sy'n golygu bod carcharorion sy'n ferched yn cael eu dal mewn carchardai yn Lloegr. Ar 30 Mehefin 2007, roedd 187 o ferched a ddedfrydwyd gan lysoedd yng Nghymru yn y ddalfa yn Lloegr, ac o'r rhain roedd 37 ar remand. Mae adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig (*Welsh Prisoners in the Prison Estate* – Mehefin 2007) hefyd wedi gwneud argymhellion i roi cefnogaeth well i ferched, eu plant, a'u teuluoedd, ac mae'r Llywodraeth wedi ymateb yn gadarnhaol i nifer o'r pwyntiau a godwyd (Awst 2007).

Ceir gwahanol broffiliau o anghenion troseddegol ar gyfer dynion a merched sy'n droseddwyr ac, felly, mae angen ymyriadau penodol i leihau'r risg bod merched yn aildroseddu. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio â phartneriaid eraill i ddatblygu'r prosiect peilot *Turnaround* er mwyn cynnig porth at gymorth aml-wasanaeth sydd wedi'i deilwrio'n benodol i anghenion merched sy'n droseddwyr a rhai sydd mewn perygl o droseddu. Y bwriad yw sefydlu gwasanaeth merched-ganolog a allai, yn y pen draw, gael ei ddarparu ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae nifer o sialensau gyda datblygu a chynnal y gwasanaeth hwn. Mae sgôp y prosiect *Turnaround* yn fwriadol uchelgeisiol, ac mae'n croesi nifer o sefydliadau a ffiniau llywodraeth, fel yr agenda lleihau aildroseddu ei hun. Ein dull ni yw anwybyddu'r ffiniau hynny wrth ddylunio'r gwasanaeth, a chawsom ein cefnogi gan ystod eang o gyrff a sefydliadau cyfranogol i wneud hynny. Er mwyn gweithredu gwasanaeth o'r fath, byddai angen ymrwymiad parhaus gan y partneriaid hyn arnom, a chyfranogiad ehangach fyth gan bawb sy'n cyllido ac yn darparu gwasanaethau lleihau aildroseddu ledled Cymru.

Pobl Ifanc, Troseddwyr Ifanc a Phobl Agored i Niwed sydd yn y ddalfa

Mae tystiolaeth gynyddol bod dynion yn y grŵp rhwng 18 a 24 oed, er yn dangos ystod tebyg o anghenion i droseddwyr eraill, yn anos eu hannog i gymryd rhan mewn gwaith a allai helpu i newid eu bywydau. Byddwn yn parhau i weithio â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i weld sut orau y gallwn helpu person ifanc i drosglwyddo o wasanaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wasanaethau carchar / prawf. Hefyd, bwriadwn edrych ar wella'r ddarpariaeth sy'n adnabod a chefnogi oedolion agored i niwed a ddedfrydir i garchar.

Poblogaethau Du a Lleiafrifol Ethnig

Yn draddodiadol, mae data ymchwil ar amrywiaeth a chydraddoldeb wedi canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â phobl ddu a lleiafrifol ethnig ac, i raddau llai, ar y rhywiau. Yn gyffredinol, mae cymunedau du a lleiafrifol ethnig wedi eu cynrychioli'n anghymesur, nid yn unig o ran proffiliau troseddwyr ond hefyd fel dioddefwyr troseddau o'i gymharu â demograffeg y boblogaeth genedlaethol a rhanbarthol. Yn ogystal, maen nhw'n cael trafferth defnyddio'r gwasanaethau oherwydd rhwystrau iaith a llythrennedd. Gallai hyn hefyd fod yn broblem gynyddol ymhlith grwpiau gwyn o Ddwyrain Ewrop.

Nid ydym eto'n deall effaith y ddeddfwriaeth anabledd a ddaeth i rym yn ddiweddar, fodd bynnag mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod gan tua 20% o'r holl boblogaeth

garchardai anhawster dysgu adnabyddus (mae dyslecsia'n broblem fawr).

Ychydig iawn o dystiolaeth ymchwil sydd ar gael o anghenion troseddwyr sy'n Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Yr hyn a wyddom yw bod y troseddwyr hyn yn fwy tebygol o wynebu allgau cymdeithasol ar ôl i'w teuluoedd chwalu a bod ganddynt drefniadau llety llai sefydlog.

Yn olaf, rydym wedi canfod, er bod y boblogaeth droseddwyr wedi'i sgiwio'n anghymesur i adlewyrchu pobl dan 30 oed, mai'r gyfran o'r boblogaeth sy'n tyfu fwyaf yw troseddwyr dros 60 oed. Mae carcharorion hŷn yn debygol o ddioddef o'r un problemau iechyd corfforol â'r boblogaeth yn gyffredinol, ond yn llawer mwy tebygol o ddioddef o salwch meddwl ac yn gymharol llai tebygol o fod yn derbyn triniaeth ar ei gyfer.

Cwestiwn 11: Sut y gallwn wella'r gwasanaethau a ddarperir i ferched sy'n droseddwyr, troseddwyr ifanc ac oedolion agored i niwed?

Cwestiwn 12: Pa gymorth ymarferol y gallwch ei ddarparu, neu ei awgrymu, i gefnogi datblygu a chyflwyno'r prosiect Turnaround?

Cwestiwn 13: Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau penodol i ystod o grwpiau lleiafrifol ac yn bartner pwysig mewn deall y materion sydd angen rhoi sylw iddynt, ac mewn chwarae rôl eiriol. Sut y gallwn orau gomisiynu gwasanaethau gan y sector gwirfoddol a chymunedol a fydd yn helpu i ddarparu eiriolaeth i'r defnyddiwr, a gwasanaethau diwylliannol sensitif i droseddwyr yng Nghymru?

Cwestiwn 14: Fel rhan o'n rôl gomisiynu, rydym eisiau derbyn adborth o ansawdd da gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau i helpu i wella'r ddarpariaeth. Pa ddarpariaeth a wyddoch amdani sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a allai gefnogi hyn, a sut orau y gallai darparwyr dderbyn adborth ystyrlon?

2.8 Yr Iaith Gymraeg

Mae gan NOMS Cymru ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sy'n golygu y gallwn gomisiynu gwasanaethau sy'n ystyried yn llawn pwysigrwydd yr iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i droseddwyr. Rydym yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai EM i adnabod y carcharorion hynny, gan gynnwys rhai sydd yn y ddalfa y tu allan i Gymru, ac sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, fel y gallwn benderfynu sut orau i ddiwallu eu hanghenion iaith.

Mae pob Ardal Brawf yng Nghymru yn darparu gwasanaethau yn unol â'i chynllun Iaith Gymraeg ei hun, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwestiwn 15: Sut y gallwn sicrhau bod anghenion iaith Gymraeg yn cael eu hadnabod a'u bod yn cael eu cwrdd yn briodol? A ddylid blaenoriaethu adnoddau i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg i droseddwyr sydd mewn carchardai yn Lloegr, ac, os felly, sut?

2.9 Ymuno â'n Gilydd yng Nghymru i Leihau Aildroseddu

Rydym yn cydnabod mai nid cyfrifoldeb NOMS yn unig yw lleihau aildroseddu, oherwydd mae nifer o ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar benderfyniadau ac ymddygiad troseddwyr. Mae lleihau ymddygiad troseddol yn golygu defnyddio llawer mwy o wasanaethau na'r rhai a ddarperir gan NOMS ac yn cysylltu i'r rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio economaidd sydd wedi eu hangori gan agenda cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad. Drwy weithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad ac ystod eang o randdeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff gwirfoddol a phreifat, ac adrannau eraill o'r llywodraeth, gallwn helpu'r troseddwr i drosglwyddo o anrhefn ei fywyd presennol i fod yn ddinesydd cyfrifol.

Mae *Ymuno â'n Gilydd yng Nghymru: y Cynllun Gweithredu i Leihau Aildroseddu* yn nodi ystod o waith partneriaeth, ar draws sefydliadau, sydd i'w ddarparu erbyn 2008 a thu hwnt. Bydd ein cynllun comisiynu'n cysylltu i ac yn adeiladu ar y gwaith partneriaeth sydd eisoes yn cael ei ddarparu.

Cwestiwn 16: Sut y gall NOMS Cymru sicrhau bod lleihau aildroseddu yn dod yn rhan o ddull holistig ar lefel Cymru gyfan ac ar lefel awdurdod lleol?

Cwestiwn 17: Sut y gallwn gysylltu'n effeithiol i gynlluniau comisiynu partneriaid eraill i gael y gorau allan o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?

3. SUT I YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Bydd y papur hwn yn cael ei ddosbarthu i amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau gan gynnwys rhanddeiliaid, partneriaid, a darparwyr presennol NOMS Cymru. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir ar y ddogfen, ac ymatebion i'r cwestiynau a godir ynddo, yn cael eu hystyried wrth baratoi Cynllun Comisiynu NOMS Cymru 2008-09.

Daw'r cyfnod ymgynghori allanol i ben yn mis Tachwedd 2007.

Rydym yn awyddus iawn i dderbyn ystod eang o sylwadau a barn am y ddogfen ymgynghori hon ac, i'r pwrpas hwn, amgaewn dempled ymateb yn Atodiad 4.

Dylid anfon eich ymatebion at Sabrina Workman erbyn Tachwedd 2007.

E-bost: Sabrina.workman@justice.gov.uk

Cyfeiriad: NOMS Cymru, Ground Floor East, Adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn:

http://noms.justice.gov.uk/noms-regions/wales

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn Ionawr 2008. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn:

http://noms.justice.gov.uk/noms-regions/wales

Cyfrinachedd

Bydd y wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, efallai'n cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â'r deddfau mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Deddf Diogelu Data 1998).

Os byddai'n well gennych inni drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarfer sy'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â fo ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a roesoch i fod yn gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn warantu y bydd yn aros yn gyfrinachol pob tro. Ni fyddwn yn ystyried bod ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo NOMS o gwbl.

Bydd NOMS yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

ATODIAD 1

CYFARWYDDWR RHEOLI TROSEDDWYR CYMRU

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUNIAU COMISIYNU A BUSNES NOMS CYMRU AR GYFER 2008-09

Rhestr Ddosbarthu

Cadeiryddion Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
Cadeiryddion Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol
Cadeiryddion Byrddau Rhaglenni Ymyriadau Cyffuriau Rhanbarthol
Prif Gwnstabliaid Heddlu
Prif Erlynwyr y Goron
Prif Swyddogion Prawf
Cadeiryddion Byrddau Monitro Annibynnol,
Cynrychiolydd Cyngor Cenedlaethol IMB
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwr Canolfan Byd Gwaith, Cymru
Cyfarwyddwr Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Cymru
Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau GIG Cymru
Llywodraethwyr Carchardai
Cyfarwyddwr Carchar Ei Mawrhydi Parc
Rheolwr Ardal y Gwasanaeth Carchardai
Cadeiryddion Byrddau Prawf
Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Llysoedd Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Timau Troseddau Ieuenctid
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
Aelodau Bwrdd Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru Gyfan
Aelodau Grwpiau Llwybrau Lleihau Aildroseddu

AWEMA
Barnardos
Plant yng Nghymru
Clinks
Cymunedau Sy'n Gofalu - Cymru
Crime Concern Cymru
Rheolwr Prosiect DAWN
Anabledd Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiynydd Plant Cymru
Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion
Cyfryngu Cymru
Stonewall Cymru
Prosiect Caplaniaeth Cymuned Abertawe
Cymdeithas Gwarchod y Gymdogaeth Abertawe
Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau Gorllewin Morgannwg
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rheolwr Cyfiawnder Troseddol - Cynllun Gwobrau Dug Caeredin

Ardal 43
Adref
Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
CAIS
Gyrfa Cymru
Cyswllt Ceredigion
Cyngor ar Bopeth
Drugaid
Ymddiriedolaeth Alcohol Gwent
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
Hafal
Ignition
Prosiect Kaleidoscope Cymru
MIND
Ailgylchu Cymunedol Mynwy
NACRO
NCH Cymru
Arbedwyr Gwastraff Casnewydd
CGG Castell-nedd Port Talbot
New Pathways
Newlink Cymru
Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Powys (PAVO)
Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru
Canolfannau Cyffuriau ac Alcohol Powys
PRISM
Progress to Work
Merthyr Tudful Mwy Diogel
Cymru Mwy Diogel
Shelter Cymru
SOVA (Cymru/Wales)
Taff Ely Drug Support (TEDS)
Tai Cantref
Tai Trothwy
Tai Hafan
Turning Point
Touchstones 12
Cymorth i Ddioddefwyr Cymru
Cymorth i Fenwyod Cymru
Working Links
Tai Wallich Clifford
Weston Spirit
Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru

ATODIAD 2

CYFARWYDDWR RHEOLI TROSEDDWYR CYMRU

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUNIAU COMISIYNU A BUSNES NOMS CYMRU AR GYFER 2008-09

Cod Ymarfer ar Ymgynghori

Er bod yr ymgynghoriad hwn, gan fwyaf, yn dilyn y Cod Ymarfer ar Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, penderfynwyd, oherwydd bod angen cynhyrchu'r Cynllun Comisiynu a Busnes yn ystod mis Rhagfyr 2007, y dylid dyrannu 4 wythnos ar gyfer yr ymgynghori allanol, a dyluniwyd y ddogfen ymgynghori fel ei bod yn cyflwyno'r materion a'r datganiadau atodol ar ffurf i hwyluso amserlen ymateb o'r fath.

Meini prawf yr ymgynghoriad

1 *Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan roi 12 wythnos o leiaf ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi.*
2 *Bod yn glir ynghylch beth yw eich cynigion, pwy allai gael eu heffeithio ganddynt, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn, a'r amserlen ar gyfer derbyn ymateb.*
3 *Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael yn eang.*
4 *Rhoi adborth ar yr ymatebion a ddaw i law a sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar y polisi.*
5 *Monitro pa mor effeithiol yw eich Adran gyda chynnal yr ymgynghoriad, gan gynnwys drwy ddefnyddio Cydlynydd Ymgynghori dynodedig.*
6 *Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arferion gorau rheoleiddio gwell, gan gynnwys drwy gyflawni Asesiad o Effaith y Rheoliadau os yw hynny'n briodol.*

Mae Asesiad o Effaith cychwynnol wedi cael ei ystyried ac nid yw'n awgrymu bod y cynigion yn debygol o achosi costau ychwanegol nac arbedion i fusnesau, elusennau nac i'r sectorau gwirfoddol neu gyhoeddus. O ganlyniad, nid yw'r papur hwn yn cynnwys Asesiad o Effaith. Os nad ydych yn cytuno â'r casgliad hwn, gwahoddir chi i anfon eich rhesymau fel rhan o'ch ymateb cyffredinol i'r papur hwn.

Cyswllt ar gyfer Sylwadau / Cwynion

Os dymunwch wneud sylw neu gŵyn am y broses ymgynghori, a fyddech gystal ag ysgrifennu at e-bost: Sabrina.workman@justice.gov.uk

Cyfeiriad: NOMS Cymru, Ground Floor East, Adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

ATODIAD 3

CYFARWYDDWR RHEOLI TROSEDDWYR CYMRU

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUNIAU COMISIYNU A BUSNES NOMS CYMRU AR GYFER 2008-09

Geirfa o Acronymau

MAPPA	Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth
NOMS	Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol
OASys	Y System Asesu Troseddwyr

© Hawlfraint y Goron; Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

ATODIAD 4

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUNIAU COMISIYNU A BUSNES NOMS CYMRU AR GYFER 2008-09

Templed ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad

Dylech ddychwelyd eich ffurflen Ymateb, ar ôl ei llenwi, at:

E-bost: Sabrina.workman@justice.gov.uk

Cyfeiriad: NOMS Cymru, Ground Floor East, Adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Ffurflen Ymateb:

Enw: *Swydd:* *Sefydliad:* *Cyfeiriad:* *E-bost:* *Rhif ffôn:*

Cwestiwn 1: O ystyried, ac eithrio prosiectau cyfalaf, y bydd ond yn bosibl cyllido gwasanaethau newydd neu well o arbedion effeithlonrwydd neu drwy ddadfuddsoddi yn y gwasanaethau presennol, pa ddarpariaeth bresennol sydd o flaenoriaeth isel yn eich barn chi ac y gellid ei lleihau?

Cwestiwn 2: Beth yn eich barn chi sy'n gweithio'n dda gyda rheoli troseddwyr yng Nghymru, a beth sydd angen ei wella?

Cwestiwn 3: Nid yw Troseddwyr Mynych a Rhai Blaenoriaeth Eraill, sydd dros 21 oed ac a ddedfrydir i lai na 12 mis yn y carchar, yn cael eu goruchwylio'n statudol gan y gwasanaeth prawf ar ôl cael eu rhyddhau i'r gymuned, ond maen nhw'n debygol iawn o aildroseddu. A ddylid buddsoddi mewn gweithio â'r grŵp arbennig hwn o Droseddwyr Mynych a Rhai Blaenoriaeth Eraill?

Cwestiwn 4: Dengys y tabl uchod ddadansoddiad o'r canrannau yn ôl y risg a gyflwynir gan y troseddwyr sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Mae mwy na 57% yn yr Haenau 1 a 2 is. Pa newidiadau y gellid eu gwneud i reoli'r mathau hyn o droseddwyr yn fwy priodol er mwyn darparu mwy o adnoddau i weithio gyda throseddwyr sy'n cyflwyno mwy o risg?

Cwestiwn 5: Rydym yn gweithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu'r ymrwymiadau o dan Dysgu Newid er mwyn darparu gwasanaethau addysg a sgiliau i droseddwyr yng Nghymru. Caiff ei gydnabod bod llawer iawn o waith da eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn, ond sut y gallwn wella a phrysuro'r broses o gydgysylltu darpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth mewn carchardai ac yn y gymuned?

Cwestiwn 6: Sut y gallwn wella ein gwasanaethau alcohol i gwrdd ag anghenion troseddwyr yn well ac i leihau aildroseddu?

***Cwestiwn 7**: Ym mha ffyrdd y gallwn weithio gyda'r llysoedd a darparwyr i ystyried opsiynau eraill yn lle dedfrydau gwaith di-dâl lle nad oes efallai eu hangen i leihau aildroseddu neu lle nad ydynt yn gosb briodol i droseddwyr?*

Cwestiwn 8: Beth y gallwn ei wneud i adeiladu ar waith 'drwy'r gât' a sicrhau ei fod yn gwreiddio'n well?

Cwestiwn 9: Credir fod 'drwy'r gât' ar ei fwyaf effeithiol pan fydd carcharor yn cael ei gadw dan glo heb fod ymhell o'i gymuned ei hun. Pa brosiect y gellid ei ddatblygu i gefnogi hyn?

Cwestiwn 10: Wrth flaenoriaethau adnoddau prin, sut y gallwn sicrhau bod yr ymyriadau iawn yn cael eu darparu i garcharorion ar yr adeg iawn er mwyn rhoi'r fantais fwyaf? A ddylai hyn gynnwys carcharorion ar remand hefyd?

Cwestiwn 11: Sut y gallwn wella'r gwasanaethau a ddarperir i ferched sy'n droseddwyr, troseddwyr ifanc ac oedolion agored i niwed?

Cwestiwn 12: Pa gymorth ymarferol y gallwch ei ddarparu, neu ei awgrymu, i gefnogi datblygu a chyflwyno'r prosiect Turnaround?

Cwestiwn 13: Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau penodol i ystod o grwpiau lleiafrifol ac yn bartner pwysig mewn deall y materion sydd angen rhoi sylw iddynt, ac mewn chwarae rôl eiriol. Sut y gallwn orau gomisiynu gwasanaethau gan y sector gwirfoddol a chymunedol a fydd yn helpu i ddarparu eiriolaeth i'r defnyddiwr, a gwasanaethau diwylliannol sensitif i droseddwyr yng Nghymru?

Cwestiwn 14: Fel rhan o'n rôl gomisiynu, rydym eisiau derbyn adborth o ansawdd da gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau i helpu i wella'r ddarpariaeth. Pa ddarpariaeth a wyddoch amdani sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a allai gefnogi hyn, a sut orau y gallai darparwyr dderbyn adborth ystyrlon?

Cwestiwn 15: Sut y gallwn sicrhau bod anghenion iaith Gymraeg yn cael eu hadnabod a'u bod yn cael eu cwrdd yn briodol? A ddylid blaenoriaethu adnoddau i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg i droseddwyr sydd mewn carchardai yn Lloegr, ac, os felly, sut?

Cwestiwn 16: Sut y gall NOMS Cymru sicrhau bod lleihau aildroseddu yn dod yn rhan o ddull holistig ar lefel Cymru gyfan ac ar lefel awdurdod lleol?

Cwestiwn 17: Sut y gallwn gysylltu'n effeithiol i gynlluniau comisiynu partneriaid eraill i gael y gorau allan o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?

Unrhyw sylwadau eraill: